

Y Llys Gwarchod: Nodiadau Canllaw ar gyfer llenwi ffurflen COP20B

Darllenwch y nodiadau canlynol cyn llenwi ffurflen COP20B

Rhaid llenwi ffurflen COP20B pan fyddwch wedi cyflwyno/hysbysu'r bobl hynny a grybwyllir yn y ffurflen gais/apêl fod cais/apêl wedi cael ei gyhoeddi/dynnu'n ôl neu unrhyw fater arall yn ôl cyfarwyddyd y llys.

Rhaid i chi ddarparu hysbysiad COP15 i'r sawl y cyflwynir iddo neu y'i hysbysir sy'n cynnwys y rhesymau pam y cyflwynir iddo neu y'i hysbysir.

Darllenwch y nodyn hwn ar y cyd â nodyn canllaw COP15A.

Dywed y llys fod yn rhaid i unigolion sydd â diddordeb yn y cais/apêl naill ai gael eu **hysbysu** drwy roi ffurflen COP15 iddynt neu bod yn rhaid i gopi o'r cais sydd wedi'i gyhoeddi a thystiolaeth ategol gael eu **cyflwyno** iddynt

Lle bo'r unigolyn wedi'i gyflwyno â ffurflen gais neu hysbysiad apelydd neu wedi cael ei hysbysu bod ffurflen gais neu hysbysiad apelydd wedi cael ei gyhoeddi yna **rhaid** i chi ddarparu ffurflen cydnabyddiad hysbysu COP5 iddynt.

Rhaid i chi lenwi a dychwelyd COP20B i'r llys **cyn pen saith diwrnod i'r cyflwyno neu'r hysbysu gael ei wneud.**

Yn achos dim cyflwyno neu dim hysbysu, **rhaid** i'r COP20B gael ei dychwelyd i'r llys **cyn pen saith niwrnod i'r dyddiad diwethaf y dylai'r cyflwyno neu'r hysbysu fod wedi cael ei wneud.**

Gall peidio ag ateb unrhyw rannau o ffurflen COP20B arwain at oedi wrth ystyried y cais/apêl.

Llenwi ffurflen COP20B

1. Manylion y sawl a wnaeth y cyflwyno/hysbysu (Adran 1)

Diffiniadau:

- **Asiant** – unigolyn sy'n gwneud yr hysbysu ar ran rhywun arall, e.e. perchennog cartref nyrsio.
- **Ceisydd** – y sawl sy'n gwneud cais i'r llys am orchymyn llys.
- **Apelydd** – y sawl sy'n apelio yn erbyn penderfyniad sydd wedi'i wneud yn y llys.
- **Gorchymyn terfynol** – y gorchymyn llys sy'n dod â'r cais i ben, e.e. gorchymyn yn penodi dirprwy.
- **Cyfaill cyfreitha** – unigolyn sy'n gweithredu mewn achos llys ar ran unigolyn heb alluedd (neu ar ran plentyn).
- **Atebydd** – parti yn yr achos (heblaw'r Ceisydd neu'r Apelydd).
- **Arall** – unigolyn nad yw'n dod o dan unrhyw un o'r categorïau uchod, e.e. cymydog.

2. Pobl y cyflwynir iddynt neu a hysbysir (Adrannau 2 a 3)

Rhaid cyflwyno i a/neu hysbysu'r bobl hynny a restrir yn Adrannau 4.1 a 4.2 y Ffurflen Gais COP1; Adran 2.6 yr Hysbysiad Apelydd COP35; neu ba unigolyn bynnag arall ag a gyfarwyddir gan y llys.

Mae dyddiad y cyflwyno/hysbysu yn dibynnu ar y dull danfon a ddefnyddir:

- Post dosbarth cyntaf (neu wasanaeth arall ar gyfer danfon y diwrnod canlynol): dyddiad postio.
- Personol: dyddiad cyflwyno'n bersonol
- Gwasanaeth cyfnewid dogfennau (DX): Y dyddiad y gadawyd y ddogfen gyda'r gwasanaeth cyfnewid dogfennau.
- Danfon y ddogfen i gyfeiriad a ganiateir: Dyddiad danfon y ddogfen i'r cyfeiriad a ganiateir.
- Ffacs: Dyddiad trosglwyddo.
- Dull electronig arall: Dyddiad trosglwyddo a'r dull a ddefnyddiwyd.
- Dull gwahanol a ganiatawyd gan y llys: Os yw'r llys wedi caniatáu dull arall o ddanfon, bydd yn pennu'r dyddiad neu fanylion eraill i'w datgan ar y dystysgrif cyflwyno.

Mae'n rhaid ichi gadarnhau'r dull cyflwyno/hysbysu drwy dicio'r blwch perthnasol.

3. Dim cyflwyno/Dim hysbysu (Adran 4)

Pan nad yw'r ceisydd/apelydd na'i asiant yn gallu cyflwyno dogfen etc na darparu hysbysiad, rhaid iddo roi manylion yr unigolyn/unigolion nad ydynt wedi cael eu cyflwyno â'r dogfennau neu nad ydynt wedi cael eu hysbysu a nodi'r rheswm/rhesymau am y methiant i gyflwyno/hysbysu.

4. Datganiad gwirionedd (Adran 5)

Rhaid i'r dystysgrif a ddarperir i'r llys gynnwys datganiad wedi'i lofnodi a'i ddyddio gan y ceisydd/apelydd neu ei asiantau penodedig.

Ymwadiad

Tynnir eich sylw at ddarpariaethau Rhan 7 o Reolau'r Llys Gwarchod 2007, Cyfarwyddyd Ymarfer 6A a Chyfarwyddiadau Ymarfer 9B a 9C. Mae copïau o'r Cyfarwyddiadau Ymarfer ar gael ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder y mae ei manylion isod.

Ni chaiff staff y Llys Gwarchod roi cyngor cyfreithiol. Os oes angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, cysylltwch â chyfreithiwr neu'ch canolfan CAB leol. Credir bod yr wybodaeth yn y canllaw hwn yn gywir adeg ei argraffu; ond nid ydym yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw wall a all fod ynddo.

Os bydd angen rhagor o gymorth arnoch i lenwi ffurflen COP20B, ewch i'r wefan www.justice.gov.uk. I gael rhagor o arweiniad neu wybodaeth, cysylltwch â Gwasanaeth Ymholiadau'r Llys ar 0300 456 4600 neu e-bostio courtprotectionenquiries@hmcts.gsi.gov.uk